Hawdd Ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol

## Beth yw eich barn chi?



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o'r ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol.

**Tachwedd 2023**

# Cynnwys


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma 3

Ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol 5

Pam rydyn ni'n ystyried newid y calendr ysgol? 8

Pa opsiynau rydyn ni'n meddwl amdanyn nhw? 11

Amserlen 21

Cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn am y calendr ysgol 23

Geiriau anodd 31




OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48765
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y bydd angen help arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch chi weld beth yw ystyr y geiriau mewn glas ar dudalen 32.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud "ni", mae hyn yn golygu Llywodraeth Cymru.




I gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch ni yn: ArchwiliorDefnyddOAmserYsgol@llyw.cymru.




Mae'r rhestr o gwestiynau rydyn ni'n eu gofyn am y calendr ysgol ar dudalen 23.

Mae dwy ffordd wahanol y gallwch chi ddweud wrthon ni beth rydych chi'n ei feddwl.




1. Gallwch chi e-bostio eich atebion aton ni. Ein cyfeiriad e-bost ni yw ArchwiliorDefnyddOAmserYsgol@llyw.cymru





2. Gallech chi anfon eich atebion aton ni drwy'r post. Ein cyfeiriad yw:

Y Gangen Amser Ysgol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# 2. Ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol



Mae Llywodraeth Cymru am wybod beth rydych chi'n ei feddwl am **strwythur** y flwyddyn ysgol, neu'r calendr ysgol.



Rydyn ni'n meddwl am newid y calendr ysgol er mwyn iddo fod yn fwy addas i ddysgwyr, athrawon a theuluoedd. Gall hyn olygu newid amseru gwyliau'r ysgol. Rydyn ni wedi ysgrifennu'r ddogfen wybodaeth yma er mwyn dweud mwy wrthoch chi am ein cynlluniau.




Mae gwaith ymchwil yn dweud wrthon ni bod y calendr ysgol yn gallu cael effaith ar y ffordd mae dysgwyr yn teimlo ac ar ba mor dda maen nhw'n gallu dysgu. Rydyn ni hefyd yn gwybod mai dysgwyr sy'n byw mewn **tlodi** neu sydd angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol, sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan hyn, yn enwedig yn dilyn cyfnodau gwyliau hirach a phan fydd y tymhorau yn wahanol iawn o ran hyd.




Rydyn ni am wneud yn siŵr bod y calendr ysgol yn gweithio'n well ar gyfer y ffordd rydyn ni'n byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw.

Felly o'r flwyddyn ysgol 2025 i 2026 ymlaen, rydyn ni eisiau rhoi'r canlynol i ddysgwyr ac athrawon:

**2 wythnos**

- Gwyliau 2 wythnos yn yr hydref i helpu i leihau blinder a gwella **llesiant**.

**5 wythnos**

- Gwyliau haf 5 wythnos i gefnogi addysg a **llesiant** dysgwyr sy'n gweld y gwyliau hwnnw'n fwy anodd.



- Y gallu i gael gwyliau'r gwanwyn ar adeg wahanol i'r Pasg er mwyn helpu i gysoni hyd tymhorau.



- Rydyn ni hefyd eisiau clywed eich barn ar rai newidiadau eraill rydyn ni eisiau eu gwneud yn y dyfodol.

Fyddwn ni ddim yn newid y pethau hyn:

**190**
**Dyddiau addysgu**

- Fyddwn ni ddim yn newid nifer y diwrnodau addysgu mewn blwyddyn (190 diwrnod i gyd).

**Egwyl ysgol**
**13 wythnos**

- Fyddwn ni ddim yn newid nifer y gwyliau ysgol mewn blwyddyn (13 wythnos i gyd).




- Fyddwn ni ddim yn newid nifer y diwrnodau hyfforddiant staff (HMS).



- Bydd pob Gŵyl Banc (fel Dydd Nadolig a’r Pasg) yn aros yr un peth.

# 3. Pam rydyn ni'n ystyried newid y calendr ysgol?



Mae gwaith ymchwil yn dweud wrthyn ni bod **strwythur** y calendr ysgol yn gallu effeithio ar ba mor dda mae dysgwyr yn gallu dysgu ac yn gallu effeithio ar **lesiant** athrawon a dysgwyr hefyd.

**Rheswm 1: Mae rhai dysgwyr yn ei chael hi'n fwy anodd dysgu am lawer o resymau gwahanol. Mae hyn yn gyfle i ni wneud calendr ysgol sy'n addas iddyn nhw a'u teuluoedd.**



Mae rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn **tlodi** a'r rhai ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**, yn ei chael hi'n anodd mynd yn ôl i'r ysgol ar ôl y gwyliau. Mae rhai teuluoedd yn dweud eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant, a'i bod hi'n costio mwy o arian pan nad yw dysgwyr yn yr ysgol.



Lles

**Rheswm 2: Gallai calendr newydd helpu dysgwyr ac athrawon sydd wedi blino erbyn diwedd pob tymor.**

Mae rhai tymhorau yn hirach na rhai eraill. Os yw tymhorau yn rhy hir, mae athrawon a dysgwyr yn gallu blino erbyn diwedd y tymor, a hynny'n effeithio'n negyddol ar eu **llesiant**. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach iddyn nhw addysgu a dysgu. Gallai dysgwyr ac athrawon ei chael hi'n fwy hawdd gorffwys os byddai rhai o'r wythnosau o wyliau ar adegau gwahanol.



**Rheswm 3: Gallai calendr ysgol newydd helpu dysgwyr ac athrawon i wneud yn well yn yr ysgol.**

Yn y calendr ysgol cyfredol mae'r tymhorau yn newid o ran hyd felly bydd athrawon a dysgwyr weithiau angen ymdrin â phwnc mewn llai o amser nag mewn blynyddoedd eraill. Gallai llai o amser olygu nad yw rhai dysgwyr yn gwneud mor dda ag y gallan nhw yn y tymor hwnnw.



Rydyn ni'n gwybod bod cael tymhorau sydd yr un hyd yn gallu helpu dysgwyr i ddysgu'n well, a helpu athrawon i gynllunio'n well.

**Rheswm 4: Gallai calendr ysgol newydd weithio'n well ar gyfer ffyrdd modern o fyw, dysgu a gweithio.**




Mae'r ffordd rydyn ni'n byw wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Ond, dyw'r calendr ysgol ddim wedi newid.



Rydyn ni'n gwybod bod llawer o deuluoedd yn meddwl bod y gwyliau haf yn rhy hir oherwydd bod dysgwyr yn gallu diflasu a theimlo'n unig.



Gall cael gwyliau ysgol sydd wedi'i ledaenu yn fwy cyson ar draws y flwyddyn helpu teuluoedd i reoli eu ffyrdd o fyw, dysgu a gweithio yn well.

# 4. Pa opsiynau rydyn ni'n meddwl amdanyn nhw?

**Opsiwn 1**

## Opsiwn 1 – cadw'r calendr ysgol fel y mae nawr (dim newid)

### Tymor yr hydref (mis Medi i fis Rhagfyr)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Hydref/Tachwedd)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Rhagfyr/Ionawr)

## Tymor y gwanwyn
## (mis Ionawr i fis Mawrth/Ebrill)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Chwefror)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Mawrth/Ebrill yr un adeg â'r Pasg)


## Tymor yr haf
## (mis Ebrill i fis Gorffennaf)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Mai/Mehefin)

**6 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 6 wythnos (ym mis Gorffennaf/Awst)

Yn Opsiwn 1 mae:

**Tymhorau’r ysgol:**

**3 Tymor**

Mae 3 thymor ysgol. Tymor yr hydref yw’r un hiraf.

**Gwyliau’r ysgol:**




Mae 1 wythnos o wyliau yn rhannu pob tymor.



Mae gwyliau hirach ar ddiwedd pob tymor (2 wythnos dros y Nadolig, 2 wythnos yn y gwanwyn a 6 wythnos dros yr haf).

**Arall:**



Nid yw pob ysgol yn dilyn yr un patrwm




Mae’r rhan fwyaf o’r ysgolion yng Nghymru yn dilyn y patrwm yma, ond dyw pob ysgol ddim yr un peth.

**Opsiwn 2**

# Opsiwn 2 – calendr ysgol newydd yn dechrau o fis Medi 2025

## Tymor yr hydref
## (mis Medi i fis Rhagfyr)

**2 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 2 wythnos (ym mis Hydref/Tachwedd)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Rhagfyr/Ionawr)

## Tymor y gwanwyn
## (mis Ionawr i fis Mawrth/Ebrill)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Chwefror)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Mawrth/Ebrill a allai gael ei ddatgysylltu oddi wrth y Pasg)

**Tymor yr haf**
**(mis Ebrill i fis Gorffennaf)**

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos ym mis Mai/Mehefin)

**5 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 5 wythnos (ym mis Gorffennaf/Awst)

Yn Opsiwn 2 mae:


**Tymhorau'r ysgol:**

**3 Tymor**

Gwneud y 3 thymor yn fwy tebyg o ran hyd.

**Gwyliau'r ysgol:**

**- 1 wythnos** **+ 1 wythnos**



Yn yr opsiwn yma, rydyn ni am symud 1 wythnos o wyliau'r haf i dymor yr hydref a gwneud gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Rydyn ni hefyd am allu symud gwyliau'r gwanwyn i ffwrdd oddi wrth y Pasg. Byddai gwyliau cyhoeddus y Pasg yn dal i fod yn 'ddiwrnodau i ffwrdd' i'r ysgol.

# Opsiwn 3

## Opsiwn 3 – calendr ysgol newydd yn y dyfodol

Rydyn ni'n meddwl gwneud newidiadau mewn 2 gam yn Opsiwn 3.

### Opsiwn 3, Cam 1

**Tymor yr hydref**
**(mis Medi i fis Rhagfyr)**

**2 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 2 wythnos (ym mis Hydref/Tachwedd)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Rhagfyr/Ionawr)

## Tymor y gwanwyn
## (mis Ionawr i fis Mawrth/Ebrill)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Chwefror)

**2 wythnos**







- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Mawrth/Ebrill a allai gael ei ddatgysylltu oddi wrth y Pasg)

## Tymor yr haf
## (mis Ebrill i fis Gorffennaf)

**1 wythnos**







- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos ym mis Mai/Mehefin)

**5 wythnos**







- Gwyliau diwedd tymor: 5 wythnos (ym mis Gorffennaf/Awst)

Yn Opsiwn 3, cam 1, mae:

**Tymhorau'r ysgol:**

**3 Tymor**

Gwneud y 3 thymor yn fwy tebyg o ran hyd.

**Gwyliau'r ysgol:**

**Yn union fel Opsiwn 2**

Mae newidiadau Opsiwn 3, Cam 1 yr un peth ag Opsiwn 2.

**Opsiwn 3, Cam 2**

Tymor yr hydref
(mis Medi i fis Rhagfyr)

**2 wythnos**







- Gwyliau hanner tymor: 2 wythnos (ym mis Hydref/Tachwedd)

**2 wythnos**







- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Rhagfyr/Ionawr)

## Tymor y gwanwyn
## (mis Ionawr i fis Mawrth/Ebrill)

**1 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 1 wythnos (ym mis Chwefror)

**2 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 2 wythnos (ym mis Mawrth/Ebrill a allai gael ei ddatgysylltu oddi wrth y Pasg)

## Tymor yr haf
## (mis Ebrill i fis Gorffennaf)

**2 wythnos**




- Gwyliau hanner tymor: 2 wythnos ym mis Mai/Mehefin)

**4 wythnos**




- Gwyliau diwedd tymor: 4 wythnos (ym mis Gorffennaf/Awst)

Yn Opsiwn 3, cam 2, mae:

3 Tymor

**Tymhorau'r ysgol:**

Gwneud y 3 thymor yn fwy tebyg o ran hyd.

**Gwyliau'r ysgol:**



Yn yr opsiwn yma, rydyn ni am symud 1 wythnos arall o wyliau i dymor yr haf a gwneud gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Byddai hyn yn golygu bod 2 wythnos o wyliau hanner tymor ym mis Mai. Byddai hefyd yn golygu bod 4 wythnos o wyliau dros yr haf.

**Arall:**



Yn y cam yma, rydyn ni'n ystyried cael diwrnodau canlyniadau arholiadau yn yr un wythnos. Ar hyn o bryd, mae diwrnodau canlyniadau'r arholiadau TGAU a'r arholiadau Safon UG/Safon Uwch mewn wythnosau gwahanol yn ystod gwyliau'r haf.

# 5. Amserlen

Byddai unrhyw newid i’r calendr ysgol yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2025 ymlaen ar y cynharaf. Dyma sut beth fyddai dyddiadau’r tymhorau ar gyfer y flwyddyn gyntaf, sef 2025 i 2026.

| Cyfnod | Dechrau | Diwedd |
|---|---|---|
| Tymor yr hydref 2025 | Dydd Llun 1 Medi | Dydd Gwener 19 Rhagfyr |
| Hanner tymor yr hydref 2025 | Dydd Llun 20 Hydref | Dydd Gwener 31 Hydref |
| Tymor y gwanwyn 2026 | Dydd Llun 5 Ionawr | Dydd Gwener 3 Ebrill |
| Hanner tymor y gwanwyn 2026 | Dydd Llun 16 Chwefror | Dydd Gwener 20 Chwefror |
| Tymor yr haf 2026 | Dydd Llun 20 Ebrill | Dydd Mercher 29 Gorffennaf |
| Hanner tymor yr haf 2026 | Dydd Llun 25 Mai | Dydd Gwener 29 Mai |

Os bydd tymor yn dod i ben ar ŵyl gyhoeddus, bydd yn cael ei chynnwys fel rhan o’r tymor.




Bydd yr **ymgynghoriad** yma yn dechrau ar 21 Tachwedd 2023. Bydd yr **ymgynghoriad** yma yn cau ar 12 Chwefror 2024. Ar ôl i bobl ddweud wrthon ni beth maen nhw'n ei feddwl am yr **ymgynghoriad**, bydd Gweinidogion Cymru yn dweud wrth bawb sut beth fydd y calendr ysgol newydd. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn gweithio gyda'r bobl sydd fel arfer yn penderfynu ar ddyddiadau tymhorau'r ysgol er mwyn mynd ati i'w cynllunio ar gyfer y dyfodol.



Rydyn ni'n deall y bydd yn cymryd peth amser i ddysgwyr, athrawon a theuluoedd baratoi ar gyfer y newidiadau sydd wedi cael eu hawgrymu. Dyna pam y bydd llawer o amser yn cael ei roi cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud, er mwyn i bobl allu paratoi.

# 6. Cwestiynau rydyn ni'n eu gofyn am y calendr ysgol

## Cwestiynau am y calendr ysgol

### Cwestiwn 1

Ydych chi'n hoffi'r calendr ysgol fel y mae nawr?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb.

## Cwestiwn 2

Dychmygwch fod 1 wythnos o wyliau'r haf wedi'i symud i fis Hydref er mwyn gwneud gwyliau hanner tymor mis Hydref yn 2 wythnos, yn lle 1 wythnos, o hyd. Byddai hyn yn golygu bod 5 wythnos o wyliau dros yr haf. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb.

## Cwestiwn 3

Dychmygwch fod gwyliau'r gwanwyn yn digwydd tua'r un pryd bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae gwyliau'r gwanwyn yn newid bob blwyddyn i gyd-fynd â'r Pasg. Mae hyn yn gallu gwneud rhai tymhorau ysgol yn hir iawn neu'n fyr iawn. Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael gwyliau'r gwanwyn tua'r un pryd bob blwyddyn?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb.

**Cwestiwn 4**

Dychmygwch ein bod ni'n cael pythefnos o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin. Ar hyn o bryd 1 wythnos o wyliau sydd. Byddai hyn yn golygu bod gwyliau'r haf 1 wythnos yn fyrrach. Ydych chi'n hoffi'r syniad yma?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb.

**Cwestiwn 5**

Ydych chi'n hoffi'r syniad o gael diwrnodau canlyniadau arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn yr un wythnos?

- Ydw ☐
- Nac ydw ☐
- Ddim yn siŵr ☐

Defnyddiwch y blwch yma i ddweud mwy wrthon ni am eich ateb.

## Cwestiwn 6

Ticiwch unrhyw un o'r blychau sy'n eich disgrifio chi orau.

- 17 oed ac yn iau. ☐
- 18 oed ac yn hŷn. ☐
- Rwy'n gweithio ym myd addysg. ☐
- Rwy'n gweithio ym maes twristiaeth. ☐
- Rwy'n gweithio ym maes gofal plant. ☐
- Rwy'n gweithio'n llawn-amser. ☐
- Rwy'n gweithio'n rhan-amser. ☐
- Rwy'n rhiant neu'n ofalwr. ☐
- Arall. ☐

## Cwestiwn 7

Ydych chi'n meddwl y byddai newid y calendr ysgol yn effeithio ar y Gymraeg?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

## Cwestiwn 8

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi, ar y Gymraeg? Sut gallen ni leihau unrhyw effeithiau gwael a chynyddu effeithiau da?

## Cwestiwn 9

Oes unrhyw beth arall hoffech chi ei ddweud wrthon ni am eich barn am y calendr ysgol?

# 7. Geiriau anodd

## Ymgynghoriad

Ystyr ymgynghoriad yw pan fydd llawer o bobl yn ateb cwestiynau am sut maen nhw'n teimlo am rywbeth. Gallai hyn fod drwy drafod neu arolwg.

## Strwythur

Patrwm pryd mae pethau'n digwydd, fel dyddiau'r wythnos.

## Llesiant

Llesiant yw bod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.

## Tlodi

Tlodi yw peidio â chael digon o arian i brynu bwyd, dillad a lle diogel i fyw.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu ei fod yn anabl a'i fod angen help ychwanegol gyda'i ddysgu.